


WALES CANCER BIOBANK
BIOFANC CANSER CYMRU

# Biofanc Canser Cymru

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Adroddiad Diwedd y Dyfarniad 2020-2025



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair/Cyflwyniad | Tudalen 3 |
| Nodau strategol | Tudalen 5 |
| Metrigau Craidd a Metrigau Ychwanegol | Tudalen 8 |
| Cyflawniadau Allweddol ac Uchaf bwyntiau 2020-2025 | Tudalen 10 |
| Buddsoddi mewn Pobl | Tudalen 18 |
| Cynnwys y Cyhoedd | Tudalen 21 |
| Ymgysylltu | Tudalen 23 |
| Ein Partneriaid Ymchwil | Tudalen 24 |
| Casgliad ac Edrych i'r Dyfodol | Tudalen 27 |

# Rhagair

> Nid yw'n ymwneud â samplau yn unig mwyach...

Bu'r pum mlynedd ddiwethaf yn gyfnod o newid ar gyfer Biofanc Canser Cymru (BCC) o ran y ffordd y mae'n cyfrannu at ymchwil canser. Gan symud i ffwrdd oddi wrth ddim ond darparu meinweoedd canser i ymchwilwyr ar gais, rydym 'nawr yn gweithio mewn modd llawer mwy cydweithredol gydag ymchwilwyr i reoli eu hanghenion cymhleth o ran samplau canser a data clinigol a moleciwlaidd cysylltiedig. Mae hyn wedi ennyn diwylliant o bartneriaeth sydd wedi arwain at fwy o ymgysylltiad ac arweinyddiaeth yn y prosiectau ymchwil canser y mae Biofanc Canser Cymru wedi cyfrannu atynt.

Bu newid hefyd yn uwch-reolwyr y Biofanc, ac rydym yn falch o groesawu Lisa Spary (Rheolwr Gweithrediadau) ac Abby MacArthur (Uwch-arweinydd y Tîm Bioadnoddau) i'r tîm rheoli, gydag Alison Parry-Jones yn ymgymryd â rôl ymgynghorydd Biobancio Rhyngwladol newydd. Mae'r penodiadau hyn yn darparu profiad a chydnerthedd ychwanegol yn ystod y cyfnod cyffrous hwn o newid.

Yn gynyddol, mae gwybodaeth ddigidol yn cael ei defnyddio i wella diagnosis cynharach o ganser, ac i helpu i wella canlyniadau triniaethau i gleifion. Mae Biofanc Canser Cymru wedi bod ar flaen y gad o ran y chwyldro digidol hwn, gan addasu ein harferion i ddarparu llwybrau moesegol diogel i gael mynediad at yr wybodaeth hon ar gyfer ymchwil, ac i reoli ein symiau cynyddol o ddata digidol i gyd-fynd â'r samplau a ddarparwn i ymchwilwyr mewn Prifysgolion, yn labordai ymchwil y GIG, ac yn y sector gofal iechyd diwydiannol.

Yma rydym yn amlygu enghreifftiau o'r ffordd y mae'r newidiadau i'n hymarfer wedi effeithio ar ymchwil canser dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Mae rhagor o wybodaeth am ein strategaeth barhaus i weithredu'r newidiadau hyn, ynghyd â'n gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, i'w gweld yn ein dogfen strategaeth, "Gweledigaeth Newydd ar gyfer Biobancio" – mae fersiwn lawn o'r ddogfen ar gael ar wefan Biofanc Canser Cymru:
**Strategaeth Newydd, Strwythur Gweithredu Newydd, Gweledigaeth Newydd ar gyfer Biobancio Canser – Biofanc Canser Cymru**

Er gwaethaf ein hymrwymiad i addasu i anghenion newidiol am wybodaeth ddigidol, mae darparu samplau ffisegol a ddarperir gan gleifion yn parhau i fod wrth wraidd yr hyn y mae Biofanc Canser Cymru yn ei wneud. Rydym o'r farn bod cael mynediad at y meinweoedd hyn yn hanfodol ar gyfer ymchwil, a hynny i wella ein dealltwriaeth o ganser ac wedi hynny i sicrhau arloesedd o ran therapi canser, a bod y samplau hyn yn cynrychioli'r cyfraniad mwyaf sylweddol y gall cleifion canser ei wneud tuag at ddod o hyd i driniaethau newydd.

Felly, mae pobl yn parhau i fod wrth wraidd yr hyn y mae Biofanc Canser Cymru yn ymwneud ag ef: o'n gwirfoddolwyr lleyg, ein staff technegol a'n nyrsys arbenigol, i'r cleifion sy'n ddigon anhunanol i roi eu samplau i helpu pobl debyg iddynt yn y dyfodol, rydym yn ddiolchgar i bob un ohonynt.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen yr Adroddiad. Ceir rhagor o fanylion ar wefan Biofanc Canser Cymru (**walescancerbank.com**) a byddem yn falch o'ch croesawu i'n teulu Facebook, X (Twitter) a LinkedIn.



**Yr Athro Richard Clarkson, Cyfarwyddwr Gwyddonol Biofanc Canser Cymru a Phrif Ymchwilydd Gwobr Seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.**

# BBC Uwch Dîm



**Yr Athro Richard Clarkson**
Cyfarwyddwr Gwyddonol
a Phrif Ymchwilydd



**Dr Alison Parry-Jones**
Cyfarwyddwr Gweithrediadau




**Yr Athro Richard Adams**
Cyfarwyddwr Clinigol



**Dr Lisa Spary**
Rheolwr Gweithrediadau



**Abby MacArthur**
Uwch Arweinydd Tîm



**Nick Ross**
Cadeirydd Bwrdd Cynghori Strategol allanol Biofanc Canser Cymru

> "Diolch i'w banc canser cenedlaethol ei hun, mae gan y Dywysogaeth un o archifau meinweoedd canser gorau'r byd ers peth amser. 'Nawr bod Biofanc Canser Cymru wedi esblygu o fod yn llyfrgell i fod yn rhywbeth mwy – partneriaeth weithredol rhwng cleifion, y GIG, y byd academaidd a diwydiant, partneriaeth sy'n integreiddio rhoddion o feinwe â data biolegol a chlinigol – gall Cymru frolio potensial newydd ac o'r radd flaenaf ar gyfer ymchwil canser."

# Strategaeth Biofanc Canser Cymru

> Addasu i dirwedd ymchwil sy'n esblygu.

## Model newydd ar gyfer Biobancio Canser yng Nghymru

Prif nod Dyfarniad Seilwaith 2020-2025 gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru oedd gwella'r gallu i ddarparu gwasanaeth Biofanc Canser Cymru i'r gymuned ymchwil ehangach, a thrwy hynny gynyddu nifer a mathau'r prosiectau a gyflawnir, gan helpu i ffurfio llu o ddatblygiadau arloesol a fydd yn arwain at newidiadau i ymarfer clinigol arferol.

Rhannwyd hyn yn dri amcan, pob un â phecynnau gwaith cyfansoddol:

### Amcan 1:


**Cynyddu nifer a chwmpas y prosiectau ymchwil canser a gefnogir gan BCC (Pecynnau Gwaith 1-3)**

### Amcan 2:

**Ymgorffori cyswllt data o'r radd flaenaf (Pecyn Gwaith 4)**

### Amcan 3:

**Integreiddio BCC i mewn i rwydwaith biobancio ehangach (Pecyn Gwaith 5)**





Rydym yn falch o allu dweud bod pob un o'r amcanion allweddol hyn wedi'u cyflawni; a cheir crynodeb o'u huchafbwyntiau yn yr adroddiad pum mlynedd hwn.

# Ein gweledigaeth ar gyfer biobancio yng Nghymru

Dros y pum mlynedd ddiwethaf bu yna ddatblygiadau enfawr ym maes ymchwil canser, a hynny'n bennaf mewn ymateb i ddatblygiadau cyflym o ran deallusrwydd artiffisial, modelu cyfrifiadurol a thechnolegau ar raddfa foleciwlaidd, sydd wedi arwain at ddatblygiadau arloesol newydd ym maes trin a diagnosio canser. Felly, er mwyn parhau i fod yn berthnasol, mae ar Gymru angen seilwaith adnoddau biosampl ystwyth a chynaliadwy a all ymateb yn gyflym i anghenion newidiol ymchwilwyr; seilwaith sy'n sail i Strategaeth Ymchwil Canser Cymru (CReSt)1 ac sydd hefyd yn galluogi rhwydweithiau ymchwil canser ehangach yn y DU ac yn rhyngwladol. Gan hynny, wrth gyflawni ei amcanion strategol gwreiddiol, yn 2024 cyhoeddodd Biofanc Canser Cymru Strategaeth pum mlynedd newydd (2025-2030) a oedd yn cwmpasu ***gweledigaeth newydd ar gyfer biobancio canser*** yng Nghymru.

***Ein gweledigaeth ar gyfer Biofanc Canser Cymru*** yw, erbyn 2030, na fydd bellach yn fiostorfa annibynnol gyda'i harchif biosamplau a'i chronfa ddata glinigol ei hun; yn lle hynny, bydd yn seilwaith bioarchif integredig, sy'n annibynnol yn ariannol ac sy'n gallu cyrchu data cleifion dienw yn uniongyrchol o borth clinigol GIG Cymru. Bydd yn newid o fod yn ddarparwr gwasanaeth 'goddefol' i fod yn bartner ymchwil rhagweithiol, gan arwain arloesedd a chyflawni ymchwil ym maes canser.

> Aethom ati i gynnig model lle byddai prosesau biobancio yn cael eu hymgorffori yn seilwaith y GIG a'r byd academaidd, a lle byddai BCC yn cymryd rhan uniongyrchol mewn prosiectau ymchwil ac yn ymgysylltu â chyllidwyr, gan hyrwyddo ei weithgarwch adennill costau trwy arferion gwaith darbodus ac integredig.



**Penllanw'r newidiadau hyn fydd model gweithio newydd o fiobancio sy'n cwtogi'r biblinell rhwng y claf a'r ymchwilydd, gan hefyd gynnig portffolio gwybodaeth o'r radd flaenaf i gyd-fynd â'r samplau biolegol.**

Yn unol â'n Gwerthoedd Craidd, mae cleifion yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn, gan eu bod nid yn unig yn cyfrannu'n uniongyrchol at ein hymchwil trwy roi eu samplau, maent yn gydweithredwyr wrth wraidd biobancio sy'n meddu ar lais pwysig a safbwynt unigryw, a fydd yn parhau i fod yn adnodd hynod werthfawr i'w ddefnyddio gan Biofanc Canser Cymru. Felly, byddwn yn parhau i ymdrechu i fodloni dymuniadau cleifion trwy fanteisio i'r eithaf ar botensial eu rhoddion i wella iechyd a gofal cleifion yn y dyfodol.

## Gwerthoedd Craidd Biofanc Canser Cymru, fel y'u disgrifir yn ein Strategaeth 2025-2030

### Perfformiad

Ein nod yw sicrhau bod ein gweithgarwch craidd mewn perthynas â Biobancio yn bodloni anghenion newidiol ymchwil canser ac yn cyd-fynd â meysydd blaenoriaeth CReSt.

### Pobl

Rydym yn ceisio cynyddu cyfleoedd cleifion i gymryd rhan mewn ymchwil canser ac i feithrin datblygiad y genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr canser yng Nghymru.

### Hyrwyddo

Rydym am fanteisio i'r eithaf ar botensial adnoddau ac arbenigedd Biofanc Canser Cymru trwy ehangu ein rhwydwaith o randdeiliaid a phartneriaid yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

### Partneriaeth

Rydym yn bwriadu defnyddio ein harbenigedd trwy gydweithio ac arwain i gyflymu arloesedd o ran ymchwil, diagnosis a thriniaeth mewn perthynas â chanser.

Rydym yn ceisio cynyddu cyfleoedd cleifion i gymryd rhan mewn ymchwil canser ac i feithrin datblygiad y genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr canser yng Nghymru. Rydym yn anelu at fanteisio i'r eithaf ar botensial adnoddau ac arbenigedd BCC trwy ehangu ein rhwydwaith o randdeiliaid a phartneriaid yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Rydym yn bwriadu defnyddio ein harbenigedd trwy gydweithio ac arwain i gyflymu arloesedd o ran ymchwil, diagnosis a thriniaeth mewn perthynas â chanser. Ein nod yw sicrhau bod ein gweithgarwch craidd mewn perthynas â biobancio yn diwallu anghenion newidiol ymchwil canser ac yn cyd-fynd â meysydd blaenoriaeth CReSt.



# Metrigau Craidd
Cyfnod adrodd: **2020/2025**

WALES CANCER BIOBANK
BIOFANC CANSER CYMRU

## Gwobr seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i'r grŵp

Cyllid uniongyrchol a ddyfarnwyd **£2.4M**

Swyddi a grëwyd drwy gyllid uniongyrchol **13**

## Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

| Grantiau a enillwyd | Dan arweiniad y grŵp | Grŵp yn cydweithio |
|---|---|---|
| Nifer | 2 | 56 |
| Gwerth | £102,587 | £13.2M |
| Cyllid i Gymru | £102,587 | £4.4M |
| Cyllid i grŵp | £102,587 | £535,101 |
| Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer Cymru | 1 | 5 |
| Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer grŵp | 1 | 2 |

**25** Nifer y cyhoeddiadau

**27** Nifer y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd

**31** Nifer y cyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan

## Metrigau biobancio

**1548** Caniatâd

**79** Ceisiadau ymchwil

**66** Ceisiadau ymchwil wedi'u cymeradwyo

**15989** Samplau a roddwyd i brosiectau ymchwil

**102** Prosiectau wnaeth dderbyn samplau


**20** Cyhoeddiadau gan ddefnyddio samplau

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Metrigau ychwanegol

Cyfnod adrodd: **2020-2025**



# Cyflawniadau Allweddol 2020-2025

Mae'r cyfnod dyfarnu hwn wedi gweld newid yn y berthynas rhwng BCC a'i bartneriaid ymchwil sy'n ceisio biosamplau. Mae symud i ffwrdd oddi wrth ei 'fodel gwasanaeth' o ddarparu samplau ar gais, i drefniant mwy cydweithredol sy'n canolbwyntio ar ymchwil lle roedd BCC yn ymgysylltu â phrosiectau ymchwil mewn modd mwy cyson, wedi arwain at fwy o geisiadau am gyllid ar y cyd gydag academyddion, y GIG, a phartneriaid yn y diwydiant. Ar ben hynny, bu newid sylweddol yn y math o brosiectau, partneriaid y prosiectau, a'r biosamplau sy'n cael eu cyhoeddi – gyda chynnydd amlwg yn nifer y prosiectau a arweinir gan y diwydiant sy'n gofyn am ddata digidol seiliedig ar samplau. Sbardunwyd y newidiadau hyn gan ein strategaeth pum mlynedd newydd, a gyhoeddwyd yn 2024, sy'n canolbwyntio ar gyflawni CReST trwy bartneriaeth â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru i ddarparu samplau a data cleifion mewn ffordd gynaliadwy a symlach.

Adlewyrchir y newidiadau hyn yn yr uchafbwyntiau allweddol a restrir ar y tudalennau canlynol.

Perfformiad

# Arwain yr Agenda Bioadnoddau:


- Yn 2020, dyfarnodd UKCRC wobr ***Banc Bio y Flwyddyn y DU*** i BCC, gan dynnu sylw at ein hyblygrwydd fel biobanc yn ystod pandemig COVID. Yn dilyn y llwyddiant hwn, cafodd Cyfarwyddwr Gweithrediadau BCC, Dr Alison Parry-Jones, sydd wedi cynrychioli BCC ar lefel genedlaethol a rhyngwladol fel ei gilydd, ei hethol yn Llywydd y Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Ystorfeydd Biolegol ac Amgylcheddol (ISBER) yn 2023.

- Mae BCC yn parhau i arwain ***mentrau cysylltu data sy'n hyrwyddo rhannu data cleifion*** ymhlith rhanddeiliaid academaidd a rhanddeiliaid y GIG yng Nghymru. Ymhlith y mentrau hyn y mae cytundeb rhannu data ffurfiol â Chronfa Ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL), sy'n integreiddio setiau data o safon ac yn sicrhau mwy o gyswllt data gofal iechyd ledled Cymru er budd ymchwil; a chydweithrediad â Roche Pharmaceuticals Ltd i ***sefydlu Amgylchedd Ymchwil Dibynadwy (TRE) ar gyfer ymchwil canser*** sy'n adeiladu ar seilwaith integreiddio data presennol Cymru. Arweiniodd y prosiect olaf at y ***Prosiect BCC Digidol*** arloesol.

- Mae ***platfform eGydsyniad newydd*** BCC wedi ein galluogi i symud o gydsynio ar bapur i fformat electronig sy'n lanlwytho data yn awtomatig i gronfa ddata BCC. Mae hyn yn cyd-fynd â strategaeth BCC ar gyfer prosesau symlach ac yn ffurfio sylfaen ein hymagwedd strategol newydd at gydsynio cynaliadwy. Yn dilyn integreiddio'r rhaglen eGydsyniad yn llwyddiannus i mewn i weithgareddau yn y clinig, mae banciau bio ar hyd a lled y byd wedi dangos diddordeb mawr mewn gweithredu arferion tebyg i rai BCC. Aeth BCC ati hefyd i arolygu llais ei gleifion i archwilio'r farn am broses gydsynio annibynnol, ac mae'n parhau i archwilio'r cysyniad o broses gydsynio symlach, dan arweiniad unigolion gydag Uwch-dimau Arwain Ymchwil a Datblygu lleol y GIG a Byrddau Partneriaeth Gofalwyr.



## Perfformiad




**PROSIECT BCC DIGIDOL:** Esbonio'r piblinellau newydd o lif data a sefydlwyd trwy brosiect BCC Digidol gan ddefnyddio cydsyniad eang i gael mynediad at ddata diagnostig genomig ar gyfer cleifion canser Cymru sy'n cydsynio i Fiofanc Canser Cymru.

***Mae prosiect Biofanc Canser Cymru Digidol (BCC Digidol)*** yn ddull Cymru gyfan o gael mynediad integredig at samplau a data genomig ar gyfer y gymuned ymchwil canser. Mae'r prosiect hwn yn gydweithrediad cyffrous rhwng gwasanaethau cenedlaethol: Biofanc Canser Cymru, Partneriaeth Genomeg Cymru, Parc Genynnau Cymru, a Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan (AWMGS) a thîm Uwch-gyfrifiadura ar gyfer Ymchwil (ARCCA) Prifysgol Caerdydd. Dan arweiniad arweinwyr ein strategaeth integreiddio data, Liz Merrifield a Peter Giles, mae'r prosiect hwn yn cyflawni elfennau ymchwil allweddol Cynllun Cyflawni Genomeg Cymru a strategaethau CReST trwy sefydlu llwybr data genomig newydd o'r GIG i'r gymuned ymchwil canser. Bydd BCC Digidol yn cysylltu samplau cleifion â proffiliau genomig, canlyniadau diagnostig arferol, a setiau data triniaethau a chanlyniadau ar gyfer canserau'r fron, yr ysgyfaint, y prostad a'r colon a'r rhefr, ymhlith eraill. Mae hwn yn fodel unigryw o ran ymchwil canser yn y DU a Chymru.




Perfformiad

# Rhagor o Samplau ar gyfer Ymchwil:

*Mae BCC yn parhau i gasglu samplau ar gyfer prosiectau cymeradwy ac i ychwanegu at yr archif er mwyn iddi fod ar gael yn rhwydd ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Mae dros 17,000 o gleifion yng Nghymru bellach wedi rhoi samplau o dros 30 o fathau o diwmorau solet. Mae'r casgliadau mwyaf yn deillio o ganserau'r fron, y colon a'r rhefr, y prostad a'r ysgyfaint lle mae meinweoedd canser a samplau gwaed a roddwyd yn gysylltiedig â hanes diagnosis clinigol, canlyniadau a thriniaeth y cleifion ochr yn ochr ag unrhyw brofion moleciwlaidd a gynhaliwyd yn ystod eu triniaeth.*

Mae BCC wedi cyflawni ei amcan pum mlynedd i gynyddu nifer y prosiectau a'r samplau a ddarperir ar gyfer ymchwil. Ers 2020, mae ***101 o brosiectau ymchwil*** wedi cael samplau, data a/neu ddelweddau. Roedd mwyafrif y prosiectau a gyflenwyd (76) yn brosiectau academaidd mewn Prifysgolion yng Nghymru. O blith y 25 o'r tu allan i Gymru, roedd mwy na thri chwarter ohonynt (19) yn brosiectau a gyflawnwyd gan gwmnïau cysylltiedig â gofal iechyd. Roedd y gwaith yng Nghymru yn cyfrif am 75% o'r ceisiadau a gefnogwyd yn ystod y flwyddyn a bron 60% o'r holl samplau a roddwyd.

## Prosiectau a gyflenwyd 2020-25





Nifer y ceisiadau unigol BCC a gyflenwyd trwy gydol cyfnod dyfarnu 2020-2025.

Yn ystod yr un cyfnod, ***anfonwyd 15,989 o samplau at ymchwilwyr***. Roedd mwyafrif y samplau a roddwyd (95%) naill ai'n samplau o diwmorau'r fron, y colon a'r rhefr, y prostad neu'r ysgyfaint. Gofynnwyd amlaf am samplau o feinwe wedi'u sefydlogi â fformalin a'u gosod mewn paraffin, gan gyfrif am 45% o'r samplau a roddwyd i ymchwilwyr.


## Y Mathau o Diwmor y Gofynnwyd Amdanynt

Yn ystod y cyfnod ariannu pum mlynedd, roedd y prif fathau o diwmorau a roddwyd i ymchwilwyr yn deillio o'r pedwar prif ganser – y fron, y colon a'r rhefr, yr ysgyfaint neu'r prostad.



Perfformiad

## Mae'r amser a gymerir i ddarparu sampl ar gyfer ymchwil am y tro cyntaf yn dangos brig 8-9 mlynedd ar ôl ei chasglu.





Yn 2023, datgelodd archwiliad o'r defnydd o samplau bwysigrwydd banc bio aeddfed. Dangosodd yr astudiaeth y cydsyniwyd i 15% o samplau BCC a ddarparwyd ar gyfer gwaith ymchwil yn ystod y cyfnod o 12 mis yn union cyn eu darparu (bar gwyrdd), a bod yr 85% arall wedi dod o'r archif. Roedd y cydsyniad ar gyfer bron chwarter (23%) y samplau a ddefnyddiwyd yn >10 mlwydd oed (barrau coch). Mae samplau o'r archif yn cael eu defnyddio dros nifer o flynyddoedd ac mae o leiaf un sampl o blith 43% o'r rhoddion wedi cael ei defnyddio mewn ymchwil. Ym mhob blwyddyn, rhyddhawyd y sampl gyntaf yn achos 19% o'r rhoddion cyn pen blwyddyn i'r dyddiad cydsynio.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwyddonol, **Richard Clarkson**:

> "Mae'r archwiliad hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd archif aeddfed sy'n darparu sbectrwm eang o samplau o diwmorau gwahanol ar gyfer ymchwil canser yn y dyfodol."

## Y Mathau o Samplau a Ddarparwyd

Darparwyd amryw o fathau o samplau i brosiectau yn ystod y cyfnod cyllido pum mlynedd, a gofynnwyd amlaf am feinwe wedi'i sefydlogi â fformalin a'i gosod mewn paraffin. Gwelwyd hefyd gynnydd yng nghanran y delweddau H ac E digidol.




Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Banc Bio wedi gweld ymchwydd yn nifer y ceisiadau am ddelweddau digidol o feinweoedd tiwmor, gan gyfrif am ddau draean (67%) o'r mathau o samplau a ddarparwyd yn ystod y cyfnod hwnnw. Ar y cyfan, mae hyn yn cyfateb i 30% o'r holl samplau a ddarparwyd gan y Banc Bio yn ystod y cyfnod pum mlynedd. Mae hyn yn adlewyrchu'r duedd gynyddol mewn perthynas â deallusrwydd artiffisial ac ymchwil canser seiliedig ar ddulliau digidol, ac yn amlygu'r angen i Fanciau Bio fod yn hyblyg i dueddiadau mewn anghenion ymchwilwyr. Cyflenwyd dros 4,000 o ddelweddau i bartneriaid diwydiannol, a chafodd elw hynny ei ailfuddsoddi i feithrin capasiti i gefnogi ymchwil seiliedig ar ddata a deunydd digidol yn y dyfodol.


| Blwyddyn | 2015-2020 | 2020-2025 | % y cynnydd |
|---|---|---|---|
| Prosiectau dan arweiniad diwydiant | 5 | 24 | 480% |

Bu cynnydd sylweddol yn narpariaeth delweddau digidol i gwmnïau sy'n ymwneud â gofal iechyd seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial yn y pum mlynedd ddiwethaf.

Perfformiad

# Cynnydd yn ein Hallbynnau Ymchwil:

Cafwyd ***26 o gyhoeddiadau yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf*** gan grwpiau ymchwil a ddefnyddiodd ein samplau rhoddedig yn eu hastudiaethau. Mae hyn yn golygu bod ***allbwn yr ymchwil gydweithredol blynyddol wedi cynyddu bum gwaith*** o gymharu â gweithgarwch BCC yn y ddeng mlynedd flaenorol. Mae archwiliad o'r cyhoeddiadau sy'n deillio o samplau BCC, a gynhaliwyd yn 2023, yn nodi un rheswm posibl dros y cynnydd hwn mewn cynhyrchiant ymchwil. Dangosodd yr archwiliad o gyhoeddiadau mai'r amser cymedrig rhwng cyflenwi samplau i'r ymchwilydd a chyhoeddi yw pedair blynedd, gyda 27% yn cymryd saith mlynedd neu fwy i gyhoeddi. Mae mwyafrif y prosiectau y cyflenwir samplau ar eu cyfer yn arwain at un cyhoeddiad, ond ar saith achlysur (~30%) arweiniodd y prosiectau at nifer o gyhoeddiadau.








Archwiliad o allbynnau ymchwil hyd at 2023: Mae nifer y cyhoeddiadau sy'n deillio o brosiectau y cyflenwyd samplau ar eu cyfer gan BCC yn cyrraedd brig 3-4 blynedd ar ôl i samplau gael eu cyflwyno i'r ymchwilydd, gyda thraean yn cymryd mwy na 7 mlynedd i'w cyhoeddi.

Enghreifftiau o ymchwil a gyhoeddwyd lle roedd gan BCC ran i'w chwarae:


- Manteisiodd astudiaeth yn labordy'r Athro Godkin ym Mhrifysgol Caerdydd ar allu BCC i gael gafael ar samplau gan gleifion yn gyflym yn ystod COVID er mwyn astudio heintusrwydd ymhlith grwpiau cleifion gwahanol yn ystod y pandemig (Scurr et al 2021 PMID: 34775604).

- Cefnogodd BCC gydweithrediad rhwng Prifysgol Aberdeen a Phrifysgol Dresden a oedd â'r nod o gymhwyso technegau deallusrwydd artiffisial newydd i ddelweddau o ganser y fron ymhlith dynion i helpu i nodi targedau triniaeth sy'n benodol i ddynion â chanser y fron (Chatterji et al, 2023. PMID: 37940649).


ORIGINAL ARTICLE

immunology

Whole blood-based measurement of SARS-CoV-2-specific T cells reveals asymptomatic infection and vaccine immunogenicity in healthy subjects and patients with solid-organ cancers


npj | breast cancer


www.nature.com/npjbcancer

ARTICLE OPEN


Prediction models for hormone receptor status in female breast cancer do not extend to males: further evidence of sex-based disparity in breast cancer

- Cyrchodd BCC hylifau gan gleifion a oedd wedi cael llawdriniaeth ar y colon a'r rhefr ar gyfer canser y coluddyn, a hynny ar gyfer astudiaeth dan arweiniad yr Athro Eberl ym Mhrifysgol Caerdydd i ymchwilio i botensial prawf newydd i adnabod y cleifion hynny sy'n profi gollyngiadau o leoliad y llawdriniaeth (Cuff et al 2023. PMID: 37486461).


- Yn ogystal â hyn, cyhoeddwyd pum ***papur newydd wedi'u hawduro gan Biofanc Canser Cymru*** yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn amrywio o sylwebaeth olygyddol ar sefyllfa biobancio rhyngwladol (Afifi et al 2020, PMID**32780585**) i ddadansoddiad genetig o garfan o samplau canser y colon a'r rhefr o'i archif (Spary et al 2023).



Techniques in Coloproctology (2023) 27:1297–1305
https://doi.org/10.1007/s10151-023-02841-y
ORIGINAL ARTICLE
**Inflammatory biomarker signatures in post-surgical drain fluid may detect anastomotic leaks within 48 hours of colorectal resection**


BIOPRESERVATION AND BIOBANKING
Volume 18, Number 5, 2020
© Mary Ann Liebert, Inc.
DOI: 10.1089/bio.2020.0013
**BRIEF REPORT**
Biobanking Spotlight on Europe, Middle East, and Africa: Presenting the Collective Experience of the ISBER-EMEA Regional Ambassadors


Scientific Research Publishing
Journal of Cancer Therapy, 2023, 14, 317-344
https://www.scirp.org/journal/jct
ISSN Online: 2151-1942
ISSN Print: 2151-1934
**Clinical Analysis of the Colorectal Cohort within the Wales Cancer Biobank: A Study of Outcomes and Genetic Screening**

Mae BCC yn parhau i fod yn gyfrannwr allweddol at ymchwil treialon clinigol, sy'n cynnwys ***Rhaglen Meddygaeth Haenedig (SMP) Cancer Research UK (CRUK)*** lle bu'n gweithredu fel 'Hwb Clinigol Caerdydd'. Cydsyniodd BCC dros 2,300 o gleifion ledled Cymru ar gyfer y rhaglen hon, gan gyfrannu dros 2,000 o samplau i'w profi. Mae'r gwaith hwn yn golygu bod BCC yn cefnogi'r broses o recriwtio cleifion Cymru â chanser yr ysgyfaint i dreialon clinigol sy'n arwain y byd, gan gynnwys Treial Matrics Cenedlaethol yr Ysgyfaint. Sefydlodd hyn ein henw da fel arweinydd mewn ymchwil glinigol integredig yn amgylchedd y GIG—gan gysylltu prosesau biomoleciwlaidd o'r radd flaenaf i ddadansoddi tiwmorau mewn samplau o diwmorau bach.




**Ffigurau SMP.** *Y ffigurau cenedlaethol ar gyfer prosiect SMP (chwith) a ffigurau Hwb Clinigol Caerdydd (BCC) (de).*

Chwaraeodd samplau Biofanc Canser Cymru ran bwysig yn y broses o gynnal astudiaethau peilot a ***ddatblygodd brofion diagnostig newydd i'w rhoi ar waith mewn ymarfer arferol yn y GIG***. Cafodd y cydweithrediadau hyn â Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan (AWMGS) a TelonostiX Ltd eu cefnogi gan gyllid annibynnol oddi wrth Ymchwil Canser Cymru a'u harwain gan Biofanc Canser Cymru. I gael rhagor o wybodaeth am y broses o gynnal y profion diagnosteg newydd cyffrous hyn, gweler gwefannau ein partneriaid (**medicalgenomicswales.co.uk/index.php/en**) a (**telonostix.com**).

- Rhoi prawf diagnostig newydd ar waith ar gyfer amrywiaeth o fathau o ganser yn arferion arferol y GIG yng Nghymru. **Prif Ymchwilydd – Dr Rhian White**.
- Datblygu arae genomau ar gyfer canfod mwtaniadau BRCA mewn canser y prostad i'w rhoi ar waith yn arferion arferol y GIG yn y dyfodol. **Prif Ymchwilydd – Dr Sian Morgan**.
- Data yn dangos targed newydd ar gyfer therapi imiwnedd canser yr ysgyfaint. PhD wedi'i ddyfarnu. **Prif Ymchwilydd – Dr Rhian White**.
- Data i gefnogi'r gwaith o weithredu prawf achrededig clinigol yn y dyfodol (ISO17025: TeloNostiX Ltd) o samplau canser y prostad fel marciwr prognostig. **Prif Ymchwilydd – Yr Athro Duncan Baird**.

> Fe wnaethon ni ddewis gweithio gyda Biofanc Cymru oherwydd argaeledd samplau a'r gallu i rhyngweithio'n uniongyrchol â staff i helpu i hysbysu ynghylch caffael samplau, casglu samplau a pharatoi samplau.
>
> *Yr Athro Duncan Baird, TeloNostiX Ltd*

> Mae Banc Bio Canser Cymru a chyllid ASTRA2 wedi hwyluso datblygiad hanfodol dau wasanaeth genomeg newydd: asesiad genomeg ar gyfer canfod mwtaniadau genynnau BRCA1/2 ar gyfer cleifion ag mCRCP at ddiben pennu cymhwysedd ar gyfer triniaeth Olaparib mewn mCRCP a dilysu a gweithredu i labordy GIG diagnostig. AWGL yw'r cyntaf yn y DU o'r rhain, o banel o 500 genyn sy'n defnyddio cDNA, ac sydd wedi galluogi lansio'r prosiect QuicDNA.
>
> *Dr Rhian White, Gwasanaeth Genomeg Meddygol Cymru Gyfan*



# Buddsoddi mewn Pobl



Pobl

# Cymwysterau Newydd ar gyfer staff Biofanc Canser Cymru

Dyfarnwyd y Cymhwyster mewn Gwyddor Biostorfeydd (QBRS) i nifer o aelodau tîm BCC. Datblygwyd y cymhwyster ar y cyd gan ISBER ac ASCP BOC+ i ateb y galw cynyddol am addysg cysylltiedig â banciau bio a biosbesimenau er mwyn helpu i broffesiynoli gweithlu banciau bio a gwella safonau. Gweithiodd y ddau sefydliad ar y cyd i ddatblygu'r cymhwyster a gynigiwyd am y tro cyntaf yn 2020 ac sy'n agored i ymgeiswyr ledled y byd.

Ym mis Gorffennaf 2021, Non Williams oedd yr ***unigolyn cyntaf yn Ewrop i basio***'r arholiad ar gyfer y Cymhwyster newydd mewn Gwyddor Biostorfeydd (QBRS). Ers hynny, mae Abigail MacArthur (2022) a Paola Foulkes (2023) hefyd wedi sefyll yr arholiadau QBRS yn llwyddiannus.



Dywedodd Non ei bod yn wych bod arholiad ar gael i bobl gael eu cydnabod am eu sgiliau a'u galluoedd fel bancwyr bio a bod y gallu i astudio gartref a gwneud yr arholiad ar-lein yn gymorth mawr o ran cyd-fynd â'r ymrwymiadau dyddiol yn y gwaith. Ychwanegodd Abigail, 'Dw i wedi dysgu llawer yn ystod fy amser yn gweithio yn Biofanc Canser Cymru, felly mae'n wych cael cymhwyster sy'n cydnabod yr wybodaeth arbenigol hon'.



Ymunodd Paola Foulkes (ar y dde) â BCC yn 2020 fel technegydd labordy, gan reoli casgliadau'r samplau treialon clinigol a hwyluso'r gwaith o gasglu, prosesu a storio biosamplau yn archif BCC. Mae BCC bellach yn cefnogi datblygiad proffesiynol Paola, sy'n gweithio tuag at ei chofrestriad patholeg yn y GIG – gan ymgorffori staff BCC ymhellach yn adrannau'r GIG.




Enillwyr y QBRS yn cael eu cydnabod yn anerchiad Llywydd newydd ISBER yng Nghynhadledd Ryngwladol ISBER, Cairo, yr Aifft.

Pobl

# Ysgoloriaethau Biofanc Canser Cymru

Er mwyn rhoi hwb i gydweithrediadau ymchwil a gwella perthnasoedd â Phrifysgol Caerdydd, mae BCC wedi cefnogi ysgoloriaethau Meistr (MSc) a PhD, fel ei gilydd. Datblygwyd y prosiectau hyn i archwilio sut y gall datblygiadau mewn deallusrwydd artiffisial wella ansawdd data ein banc bio a'r modd y mae angen i'r data esblygu er mwyn galluogi cysylltiad â setiau data eraill.


Mae myfyriwr ar y cwrs ***MSc Biowybodeg a Genomeg Gymhwysol*** wedi ymgymryd â phrosiect chwe wythnos o hyd sy'n edrych ar y modd y gellir defnyddio dulliau dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial i ddilysu data. Ariannwyd ***ysgoloriaeth PhD*** yn llwyddiannus trwy Myristica a fydd yn cychwyn ym mis Hydref 2025, gyda chymorth a goruchwyliaeth gan BCC a fydd yn defnyddio samplau a delweddau o dreial clinigol a samplau canser y fron a gedwir yn BCC.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Clinigol, yr Athro Richard Adams:

> "Mae goruchwylio ysgoloriaethau ôl-raddedig yn llwybr newydd i BCC, a gobeithiwn y bydd nid yn unig yn darparu hyfforddiant gwerthfawr i'n hymchwilwyr yn y dyfodol ond bydd yn meithrin ymwybyddiaeth yn y gymuned ymchwil o bwysigrwydd sicrwydd ansawdd yn achos samplau ar gyfer ymchwil trwy Fanciau Bio achrededig."




# Cynnwys y Cyhoedd



## Pobl

Mae cleifion yn parhau i fod wrth wraidd popeth y mae BCC yn ei wneud. Mae'r samplau y maent yn eu rhoi yn ganolog i gylch gwaith craidd y banc bio ac mae cleifion-wirfoddolwyr yn parhau i fod yn gysylltiedig â rheolaeth weithredol a datblygiad strategol y banc bio yn rhinwedd aelodau grŵp lleyg a chydsynwyr gwirfoddol BCC. Croesawodd ***Grŵp Cyswllt a Moeseg Lleygwyr (LLEG) BCC*** ddau aelod newydd yn ystod y cyfnod grant hwn, a gwahoddwyd pob un i ymuno â phwyllgorau strategol a gweithredol BCC, gan gynnwys y pwyllgor rheoli. Roedd hyn yn sicrhau bod llais y claf yn cael ei glywed ledled y banc bio.

| Aelod Grŵp Lleyg | Grŵp Lleyg | Aelodau Pwyllgor BCC |
|---|---|---|
| Bob Hall | Cadeirydd | Grŵp Gweithredol |
| Pam Parkhouse | | Rheolaeth Weithredol |
| Sue Campbell | | Personau Dynodedig/Arweinwyr Lleol yr Awdurdod Meinweoedd Dynol |
| Maggie Hughes | | Grŵp Strategaeth |
| Richard Bevan | | Grŵp Strategaeth |
| Bryony Amesbury | | Rheolaeth Weithredol |




Mae pob aelod o'r grŵp lleyg yn cymryd rhan yn y broses o adolygu ceisiadau am samplau a/neu ddata yn ôl trefn rota. Mae'r aelodau lleyg yn adolygu'r crynodeb lleyg yn y ceisiadau i sicrhau bod iaith glir yn cael ei defnyddio a bod y crynodeb yn ddealladwy i gynulleidfa leyg. Ni fydd ceisiadau am fynediad yn cael eu cymeradwyo nes bod yr aelod lleyg yn hapus gyda'r crynodeb o'r ymchwil, a ddefnyddir ar wefan y banc bio i amlygu'r ymchwil a gefnogir.

Ailsefydlodd BCC ei ***raglen cydsyniad gwirfoddol*** yng Nghanolfan Ganser Felindre wedi cyfnod o anweithgarwch yn dilyn COVID. Recriwtiwyd tri chydsyniwr gwirfoddol newydd ym mis Mehefin 2024, a chwblhaodd pob un ohonynt yr hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth a symud i'r amgylchedd ymarferol, clinigol lle dysgasant y broses cydsyniad cymheiriad. Mae cydsynwyr gwirfoddol yn bresennol mewn tri o glinigau cleifion allanol Felindre bob wythnos neu bob pythefnos – gan sicrhau bod BCC yn cynnig cyfle i gleifion sydd â sawl math o diwmorau ymgysylltu ag ymchwil canser. Mae cyflwyno cydsyniad gwirfoddol yn Felindre wedi cynyddu ymgysylltiad y banc bio â chleifion 200%.

Bu i'r gweithgarwch hwn wella'r berthynas a sefydlwyd eisoes â thîm Ymgysylltu â Chleifion Felindre, ac mae'r Bwrdd Partneriaeth Cleifion a Gofalwyr a BCC yn elwa'n fawr o brofiad y ddau dîm, gan ganiatáu iddo ddatblygu prosiectau arloesol a chael ei arwain gan ei boblogaeth o gleifion.


Pobl

# Ymgysylltu

## Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chleifion wedi bod yn gonglfaen i weithgarwch Biofanc Canser Cymru yn ystod y degawd diwethaf, ac mae gan lais y claf rôl allweddol ar draws pob agwedd ar fiobancio. Mae llais y claf yn hanfodol i hyrwyddo a gwarchod budd y cyhoedd a sicrhau bod ymchwil wedi'i seilio ar werthoedd y byd go iawn.

Trwy gydol y cyfnod grant hwn, mae BCC wedi ymgysylltu â'r cleifion sy'n ei gefnogi, ac mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys lansio ein sianel YouTube newydd gyda chynnwys sy'n anelu at wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o fiobancio. Mae BCC hefyd wedi sefydlu llinell uniongyrchol i lais y claf trwy ddatblygu nifer o arolygon cleifion ar bynciau megis cymryd rhan mewn ymchwil canser a'r broses gydsynio. Cychwynnodd yr arolygon hyn brosiect newydd arloesol ar fodel cydsyniad annibynnol.




## Ymgysylltu Proffesiynol

Mae BCC yn ymgysylltu â'i randdeiliaid, ei bartneriaethau a'i gymheiriaid ledled y byd – gan sicrhau ei fod yn parhau i fod ar flaen y gad o ran safonau ac arferion biobancio. Mae BCC yn mynd ati'n rhagweithiol i rannu ei wybodaeth a'i brofiadau ei hun – gan gyflwyno posteri a sgyrsiau ar draws gwahanol lwyfannau, gan gynnwys cynadleddau ymchwil a biobancio rhyngwladol, digwyddiadau ymgysylltu a arweinir gan y llywodraeth a'r diwydiant, ac wedi gwahodd prif gyflwyniadau academaidd.



Mae cyflwyniadau wyneb yn wyneb ar BCC gan staff BCC yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf wedi lledaenu ein neges i bedwar ban byd.

# Ein Partneriaid Ymchwil

Mae cydweithio wrth wraidd strategaeth newydd BCC. Bydd partneriaethau newydd yn ysgogi mwy o ymwneud ag ymchwil a byddant yn sicrhau cyfran fwy o incwm grant allanol i BCC, gan hwyluso ein hymdrechion ar gyfer cynaliadwyedd.

Er mwyn hyrwyddo ein hymgysylltiad â phartneriaid ymchwil, aethom ati i ddatblygu **canllawiau ar gyfer cydweithio/ymgysylltu** â'r sectorau academaidd a diwydiannol – gan amlygu ein hyblygrwydd o ran y ffordd y gallwn weithio gydag ymchwilwyr canser ar sawl lefel.



Partneriaeth

# Cydweithrediadau Biobancio

- Mae ***partneriaeth â Breast Cancer Now*** yn esiampl o'n cyfeiriad strategol newydd. Mae hon yn bartneriaeth gydweithredol ffurfiol lle mae BCN wedi ymrwymo i ariannu swydd lawn-amser yn BCC am bum mlynedd i gasglu, prosesu a rhannu samplau canser y fron â Banc Bio Breast Cancer Now, gan hefyd ychwanegu at archif BCC a'i chynnal. Nid yn unig y mae hyn yn dangos potensial ar gyfer cynaliadwyedd yr archif wrth symud ymlaen, mae hefyd yn hyrwyddo'r broses o ledaenu samplau cleifion yng Nghymru ar gyfer ymchwil.

- Mae ***integreiddio â Banc Bio Prifysgol Caerdydd*** yn parhau i fod yn gredo ganolog i'n cynlluniau wrth symud ymlaen. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â Phrifysgol Caerdydd (Coleg y Gwyddorau Bywyd) a Banc Bio Prifysgol Caerdydd i archwilio'r potensial ar gyfer cyfleuster biobancio effeithlon a chynaliadwy.

- Yn ddiweddar, ***cytunwyd i gydweithio â banciau bio AML a BRAIN***, lle mae BCC yn darparu cymorth rheoleiddiol a thechnegol, yn hyfforddi ac yn datblygu'r staff ac, o ganlyniad, yn sicrhau cydnerthedd staffio yn achos y banciau bio hyn. Mae hyn yn rhan o genhadaeth barhaus BCC i hwyluso cyfatebiaeth agosach â banciau bio Cymru a'r DU er mwyn hyrwyddo mynediad cynaliadwy at samplau.

# Cydweithrediadau Academaidd

Rydym wedi bod yn targedu ymgysylltiad a chydweithio cynnar ag academyddion i sicrhau mwy o ymwneud ag ymchwil canser ac i gyfeirio cyllid allanol at amser staff BCC. Mae hyn yn golygu ymgysylltu â grwpiau ymchwil unigol (lleol a rhyngwladol); cydweithio ar grantiau ymchwil mawr, grantiau rhaglenni a grantiau platfform; ac ymgorffori ein gweithgarwch mewn sefydliadau ymchwil a rhwydweithiau cydweithredol. Mae'r canlynol yn egluro'r gweithgareddau hyn:

- ***Ymgorffori arferion BCC yn Hyb Ymchwil Canser Caerdydd (CCRH)***. Nod y cydweithrediad teirochrog hwn rhwng Prifysgol Caerdydd, ac Ymddiriedolaethau GIG Felindre a Phrifysgol Caerdydd a'r Fro yw hyrwyddo ymchwil canser rhyngddisgyblaethol rhwng y byd academaidd a'r GIG yng Nghaerdydd.

- Mae ***mabwysiadu treialon a chynnal samplau*** yn parhau i fod yn un o swyddogaethau pwysig y Banc Bio sy'n darparu ar gyfer partneriaethau hirdymor â thimau treialon cenedlaethol, yn ogystal â phroffil yn yr arena treialon clinigol rhyngwladol. Mae cynnal samplau treialon wedi bod yn fuddiol i dimau'r prosiectau, a rhoddwyd estyniad i Add-Aspirin a Stampede i'w storio'n barhaus.

Partneriaeth

# Cydweithrediadau yn y GIG

- Mae perthynas weithio agos barhaus ag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi arwain at ***ailgyflwyno cydsynio gwirfoddol a symleiddio cydsyniad*** yng nghlinigau'r GIG gyda'n modiwl eGydsyniad, gyda Felindre'n bartner. Mae hyn yn cynnwys datblygu cynnig newydd i dreialu'r modiwl cydsyniad "annibynnol", gyda golwg ar wneud cais am gyllid i gefnogi hyn trwy Elusennau Felindre.

GIG CYMRU NHS WALES | Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre Velindre University NHS Trust

- Mae cydweithrediadau parhaus â'r tîm pancreatig yn ***Ymddiriedolaeth GIG BIP Bae Abertawe*** wedi sicrhau y gall ymchwilwyr gyrchu samplau ffres o feinwe cleifion ar gyfer ymchwil barhaus mewn maes y mae mawr ei angen. Mae'r cydweithio hwn wedi galluogi BCC i gefnogi casgliadau ar draws byrddau iechyd cenedlaethol yng Nghymru, a bydd yn helpu i gychwyn cydweithrediadau pellach ar draws sawl math o ganser.

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe Swansea Bay University Health Board

# Cydweithrediadau yn y Diwydiant

- Ers dechrau cyfnod dyfarnu 2020-2025, rydym wedi canolbwyntio ar wella ein hymgysylltiad â diwydiant. Rydym wedi gweld cynnydd mawr mewn partneriaethau masnachol, gyda ***phrosiectau dan arweiniad y diwydiant wedi cynyddu bron bum gwaith*** o gymharu â'r cyfnod dyfarnu blaenorol. Enghreifftir hyn gan berthynas hirdymor cynhyrchiol â Panakeia Technology Ltd, sydd wedi cynnal dau brosiect ymchwil gyda ni ac wedi bod yn rhan o ddau gais am gyllid arloesi, gyda BCC yn gyd-ymgeisydd neu'n arweinydd.

Panakeia



# Casgliad ac Edrych i'r Dyfodol

Yn ystod y cyfnod grant nesaf, byddwn yn anelu at lywio ein model biobancio fwy tuag at gynaliadwyedd ac arloesedd, gyda chyfatebiaeth agosach â rhanddeiliaid a phartneriaid, gan anelu at osgoi dyblygu. Rydym yn gobeithio treialu ein model cydsynio annibynnol a hwylusedig newydd a gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru a SAIL i dreialu prosesau llif data newydd. Fel y disgrifir yn ein strategaeth newydd ar gyfer 2025-2030: byddwn yn cysoni arferion, gweithdrefnau rheoleiddio a seilwaith ffisegol â Banc Bio Prifysgol Caerdydd. Mae hon yn elfen bwysig o'r cymorth ychwanegol a ddarperir gan y Sefydliad Addysg Uwch lletyol, Prifysgol Caerdydd i gefnogi BCC yn y dyfodol.

Byddwn hefyd yn ceisio integreiddio â strategaethau Ymchwil a Datblygu'r GIG yn Felindre a Chaerdydd a'r Fro, yn rhannol trwy ein hymrwymiad parhaus â Hwb Ymchwil Canser Caerdydd (CCRH), ond gan hefyd fynd ati'n annibynnol i sefydlu llifoedd gwaith trwy wasanaethau Patholeg y GIG, Gwasanaeth Geneteg Meddygol Cymru Gyfan (AWMGS), a rhanddeiliaid eraill y GIG ym maes canser.

Fel y mae ein mentrau eGydsyniad a chydsynwyr gwirfoddol blaenorol yn tystio iddo, byddwn yn anelu at fwy o gynwysoldeb ac effeithlonrwydd o ran cydsyniad cleifion.

Edrychwn ymlaen at barhau i weithredu ein strategaeth newydd gyda'r nod o gynyddu ymgysylltiad â'r gymuned ymchwil i helpu i gael effaith ar ddiagnosis a thriniaethau i gleifion canser. Rhaid diolch i lawer o bobl, ond yn enwedig i'r cleifion yng Nghymru am eu cefnogaeth barhaus a'u parodrwydd i roi samplau a data i'r banc bio.

# Cyswllt a'r Cyfryngau Cymdeithasol

walescancerbank@cardiff.ac.uk

walescancerbank.com

linkedin.com/company/wales-cancer-biobank

facebook.com/thewalescancerbank

x.com/walescancerbank

youtube.com/channel/UCtzbTXmr--nsVmB8aOEzz6w